# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 03/03/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyflenwi Gwasanaethau Iechyd

**C9 Mark Isherwood**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fodelau cydweithredol o gyflenwi gwasanaethau iechyd? OAQ(3)1439(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae GIG Cymru eisoes yn gweithredu yn unol ag egwyddorion cydweithredol.

### Colli Apwyntiadau mewn Ysbyty

**C10 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am golli apwyntiadau mewn ysbyty? OAQ(3)1424(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cydnabod bod colli apwyntiadau'n cael effaith fawr ar y GIG yng Nghymru. Mae'r GIG yn monitro nifer yr apwyntiadau a gollir ledled Cymru, ac mae'n mynd ati i chwilio am ffyrdd o leihau'r niferoedd hyn, drwy gyfathrebu'n well â chleifion.

### Gofal Iechyd Parhaus y GIG

**C11 Trish Law:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa fesurau sydd ar waith i hyrwyddo gwasanaethau a luniwyd i atal neu i ohirio'r adeg y mae ar bobl angen gofal iechyd parhaus y GIG? OAQ(3)1418(HSS) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Mae nifer o enghreifftiau sy'n anelu at leihau'r angen am wasanaethau dwys, at osgoi derbyn pobl i'r ysbyty ac at eu helpu i aros yn eu cartrefi. Ymhlith y rhain mae ymyriadau arloesol ar gyfer pobl eiddil, gwasanaethau ailsefydlu a thimau ailalluogi, teleofal, gwaith i reoli cyflyrau cronig a'r rhaglen strategol ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol.

### Gwasanaethau Arennol

**C12 Lorraine Barrett :** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella mynediad at wasanaethau arennol yng Nghymru? OAQ(3)1443(HSS)

**Edwina Hart:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithredu cynllun cynhwysfawr i gynyddu capasiti dialysis ledled Cymru, ynghyd â'r gofynion staffio meddygol cysylltiedig, gan weithio drwy'r ddau rwydwaith arennol. Yr wyf wedi buddsoddi mwy er mwyn cynyddu capasiti dialysis, gan roi swm ychwanegol o £2.5 miliwn yn 2008-09, a fydd yn codi i £6.8 miliwn ar gyfer 2009-10 a £9.3 miliwn ar gyfer 2010-11.

### Peiriannau Gwerthu

**C13 Nick Ramsay :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnwys peiriannau gwerthu mewn ysbytai? OAQ(3)1422(HSS)

**Edwina Hart:** Mae'r hyn y caniateir ei roi mewn peiriannau gwerthu mewn ysbytai yn cael ei reoli gan y cyfarwyddiadau ar werthu sy'n hybu iechyd mewn ysbytai, a anfonwyd at y byrddau iechyd yn 2008. Darparwyd canllawiau gyda'r cyfarwyddiadau, ac maent yn rhoi diffiniadau o ba fath o fwyd a diod a ganiateir mewn peiriannau gwerthu. Mae adolygiad o'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu wedi'i gynnal yn ddiweddar.

### Amseroedd Aros Cleifion

**C14 Mohammad Asghar :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyd amseroedd aros cleifion mewn ysbytai yng Nghymru? OAQ(3)1448(HSS)

**Edwina Hart:** Mae'n bleser gennyf gyhoeddi nad oedd unrhyw gleifion yng Nghymru ddiwedd mis Rhagfyr 2009 yn aros am fwy na 36 wythnos i gael triniaeth ar ôl cael eu hatgyfeirio.

### System Apwyntiadau Meddygon Teulu

**C15 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am system apwyntiadau meddygon teulu? OAQ(3)1464(HSS)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi gweithio'n agos gyda Chymdeithas Feddygol Prydain a byrddau iechyd lleol ers i'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol gael ei gyflwyno, i'w gwneud yn haws cael apwyntiad gyda meddyg teulu. O'r cleifion hynny a gymerodd ran yn arolwg cleifion meddygon teulu Cymru 2008-09, yr oedd 83 y cant ohonynt yn gallu cael apwyntiad ar y diwrnod y gwnaethant ffonio, neu'r diwrnod wedyn.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### ZF Steering Systems Nacam Ltd

**C9 Trish Law :** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gynnig i ZF Steering Systems Nacam Ltd, sydd wedi cyhoeddi y bydd yn cau ei ffatri yng Nglynebwy eleni? OAQ(3)1395(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â'r cwmni ac wedi archwilio'r holl fathau posibl o gymorth. Mae rhaglen ReAct a mesurau eraill ar gael i helpu'r gweithwyr y mae cau'r ffatri wedi effeithio arnynt, a byddwn yn cynnig unrhyw gymorth o'r fath sy'n bosibl.

### Busnesau Bach a Chanolig eu Maint

**C10 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fusnesau bach a chanolig? OAQ(3)1385(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae ein rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes, y mae'r gronfa

fuddsoddi sengl yn sylfaen iddi, yn sicrhau bod ystod eang o gymorth ariannol a chymorth nad yw'n ariannol ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint. Bydd rhaglen adnewyddu'r economi yn edrych ar ffyrdd o wella cymorth i fusnesau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig eu maint.

### Prosiectau Adfer Tir

**C11 Trish Law:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau adfer tir ym Mlaenau Gwent a gyllidir drwy raglen Blaenau'r Cymoedd? OAQ(3)1402(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio.***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Bydd y gwaith ychwanegol i adfer tir yn Y Gweithfeydd, sy'n cael ei ariannu o gyllideb y swyddfa ranbarthol, wedi'i gwblhau i bob pwrpas erbyn mis Ebrill 2010. Bydd safle wedi'i glirio ar gael, felly, yn barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Nid oes unrhyw brosiectau adfer tir eraill ar y gweill yn yr ardal ar hyn o bryd.

### Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol ynghylch atgyweirio a chynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd? OAQ(3)1416(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau rheolaidd gydag awdurdodau lleol ynghylch atgyweirio a chynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd lleol ac yr wyf wedi cynnal cyfarfodydd gydag aelodau awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drafnidiaeth.

### Sgiliau Newydd

**C13 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog egluro beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ddod â sgiliau newydd i Gymru? OAQ(3)1411(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i godi uchelgais a'r galw am sgiliau. Yr ydym i gyd yn gwybod mai sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd y gweithlu a fydd yn hyrwyddo cystadleuaeth a thwf yng Nghymru. Dyna pam fydd yr agenda sgiliau yn ganolog i'n rhaglen adnewyddu'r economi.

### Diweithdra Ymysg Pobl Ifanc

**C14 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc? OAQ(3)1378(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes***

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Yn yr uwchgynhadledd economaidd ddiwethaf, cyhoeddais y byddai swm ychwanegol o £49 miliwn ar gael i helpu pobl ifanc i gael addysg, hyfforddiant a gwaith ac i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar ein hymateb i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Bydd y grŵp yn cyflwyno'i adroddiad i mi erbyn 31 Mai.

Yr ydym hefyd yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod ei mesurau hi ar gyfer y dirwasgiad, sy'n cynnwys rhagor o gymorth i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers chwe mis, y Gwarant i Bobl Ifanc a chronfa Swyddi'r Dyfodol, yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus yng Nghymru.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1412(ECT), yn ôl*